Adroddiad Cyfarfod 10:09:14

Sian Wheway, Dafydd Roberts a Math

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher y 10fed o Fedi 2014. Bu i'r llywydd Mair Price, groesawu pawb yn ôl wedi gwyliau'r haf. Heb feddwl am ddim ymhellach, mynegodd Mair ein dymuniadau gorau i Gwion ŵyr Gwyneth a Ieuan Williams sydd wedi cael damwain yn ddiweddar, yr oedd ein meddyliau gyda'r teulu i gyd ar amser anodd.

Diolchwyd i Rita am baratoi'r rhaglen mor drefnus ac i Jen a chwmni Delwedd am argraffiad glân. Roedd Gwyneth Jones – trysorydd y llynedd, wedi paratoi mantolen ariannol drylwyr, a archwilwyd gan Seiriol Owen a rhoddwyd copi i bawb. Yn anffodus oherwydd trafferthion cael ffurflenni Cymraeg eleni bydd raid symud ein cyfrif o fanc Barclays i HSBC, a hynny wedi 40 mlynedd.

Diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu, gwerthu a phrynu llyfrau ar gyfer ein stondin ar gae Gwyl Bethel eleni. Gwnaethpwyd elw o £90.

Da oedd deall fod Jenkin M. Griffiths, gwr Glenys adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac i Edwina Morris sy'n gwella wedi triniaeth i'w llygad. Dymunwyd yn dda i Nan Rowlands oedd yn cael clun newydd ac anfonwyd cofion at John Evans, gwr Elisabeth .

Yr oedd pedair nain i'w llongyfarch- Anne Elis yn nain i Ynyr Morus, Margaret Druce yn nain i Llion Ywain , Alys Jones yn nain i Aled a Gwyneth Jones, Betheda yn nain i Owi. Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu llwyddiant rhagorol yn yr arholiadau TGAU a lefel A.

Cyhoeddwyd mai ar 11eg o Hydref y cynhelir Eisteddfod bentref Bethel eleni ac hefyd fod Tê Cymreig yn y Neuadd Goffa bnawn Mercher Medi 25 o 2 - 4 o'r gloch, a'r elw at gronfa MacMillan. Talwyd diolch i aelodau'r gangen fu'n casglu at Sefydliad y Galon yn ddiweddar.

Pleser oedd croesawu gwesteion y noson, sef Sian Wheway, Dafydd Roberts a Math. Mae'r tri erbyn hyn yn adnabyddus i Gymru gyfan a mawr yw eu cyfraniad i'r byd cerddoriaeth werin ac offerynnol. Gallwn ymfalchïo mai hwn oedd y tro cyntaf i Math gynnal cyngerdd gyda'i rieni. Cawsom unawdau hyfryd gan Sian, hanes a pherfformiad hudolus ar y delyn deires gan Dafydd

a pherfformiadau hynod feistrogar gan Math ar y piano ac ar y delyn. Mawr oedd edmygedd pawb ohonynt.

Diolchwyd yn ddidwyll iddynt gan Mair Read, yr is-lywydd. Cyfranwyr y raffl oedd Anwylyd Jones, Mair Read a Mair Price, a'r enillwyr oedd Dilys, Jen ac Alys.

Yr oedd aelodau'r pwyllgor wedi paratoi lluniaeth flasus a bu i bawb fwynhau.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Fercher 8fed o Hydref yn Festri Cysegr am 7.30 o'r gloch pan ddaw aelodau o staff GISDA, Caernarfon atom i son am waith gwerthfawr y mudiad. Bydd cyfle eto yn y cyfarfod hwn i ymaelodi.